



Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

Eich amddiffyn rhag Brech y Mwncïod

Gwybodaeth am frechiad y frech wen

Beth yw brechiad y frech wen (MVA)?

Rydych yn cael cynnig brechiad y frech wen er mwyn helpu i'ch amddiffyn rhag brech y mwncïod.

Mae'r brechlyn yn cael ei weithgynhyrchu yn Ewrop gan Bavarian Nordic¹. Pan roddir y brechlyn i chi, mae eich system imiwneidd (system amddiffyn naturiol y corff) yn cynhyrchu gwrthgyrff yn erbyn feirws y frech wen. Dylai'r gwrthgyrff hyn hefyd eich amddiffyn rhag feirws brech y mwncïod.

Mae'r brechlyn yn cynnwys feirws sydd wedi'i addasu fel na all dyfu yn y corff dynol. Cafodd y brechlyn Vaccinia Ankara wedi'i Addasu (MVA) hwn ei ddatblygu fel math llawer mwy diogel o frechlyn y frech wen a ddefnyddiwyd yn eang yn y DU a thramor i mewn i'r 1970au. Nid yw'r brechlyn MVA yn cynnwys feirws y frech wen ac ni all ledaenu nac achosi'r frech wen.

[1] Gelwir y brechlyn a roddir i chi yn Imvanex yn y DU ac Ewrop, Jynneos yn yr Unol Daleithiau ac Imvamune yng Nghnada. Mae'r rhain i gyd yn cynnwys yr un brechlyn MVA ac fe'u gwneir gan yr un cwmni.



Ar gyfer beth mae MVA yn cael ei ddefnyddio?

Gan fod brech y mwncïod yn cael ei achosi gan feirws sy'n debyg i'r frech wen, disgwylir i frechlynnau yn erbyn y frech wen atal neu leihau difrifoldeb haint brech y mwncïod.

Mae brechlyn Imvanex wedi'i awdurdodi gan Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) i amddiffyn yn erbyn y frech wen.

Er bod yr un brechlyn MVA wedi'i drwyddedu i'w ddefnyddio yn erbyn brech y mwncïod yn yr Unol Daleithiau, nid yw'r brechlyn wedi'i drwyddedu eto i'w ddefnyddio yn erbyn brech y mwncïod yn y DU. Oherwydd hyn ac oherwydd efallai eich bod yn cael brechlyn sydd wedi'i becynnu a'i labelu i'w ddefnyddio yn yr Unol Daleithiau, ystyrir bod y brechlyn a gewch yn un 'didrwydded' neu 'oddi ar y drwydded' yn y DU. Ni ddylai hyn wneud unrhyw wahaniaeth i chi, gan fod eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn argymhell y brechlyn yn unol â chyngor cenedlaethol.

Mae Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (UKHSA) a'r Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI) yn argymhell defnyddio brechlyn MVA fel rhan o'r ymateb i achosion o frech y mwncïod.

Ar gyfer pwy mae MVA yn cael ei argymhell?

Ar hyn o bryd, mae UKHSA yn argymhell bod MVA yn cael ei gynnis i'r canlynol:

✓ **Gweithwyr gofal iechyd sy'n gofalu neu sydd ar fin dechrau gofalu am glaf sydd ag achos o glefyd y mwncïod wedi'i gadarnhau** (mae angen 2 ddos fel arfer)

✓ **Dynion hoyw, deurywiol a dynion eraill sy'n cael rhyw gyda dynion.** Bydd eich clinigydd yn cynghori eich bod yn cael eich brechu os oes gennych nifer o bartneriaid, yn cael cyfathrach rhywiol mewn grŵp neu'n mynd i leoliadau 'rhyw ar y safle' (un dos nawr – efallai y cynghorir ail ddos yn ddiweddarach yn eich clinig iechyd rhywiol)

✓ **Pobl sydd eisoes wedi cael cysylltiad agos â chlaf sydd â brech y mwncïod wedi'i gadarnhau.** Dylid cynnig brechiad ag un dos o'r brechlyn cyn gynted â phosibl (yn ddefnyddiol o fewn 4 diwrnod ond weithiau hyd at 14 diwrnod)

A yw'r brechlyn yn gweithio?

Ar ôl 2 ddos o'r brechlyn, mae'r rhan fwyaf o bobl yn datblygu gwrthgyrff ac felly dylent gael lefel dda o amddiffyniad yn erbyn brech y mwncïod. Mae'n llai clir pa lefel o amddiffyniad a gewch o un dos a roddir **ar ôl** dod i gysylltiad ag achos unigol.



Cynnigir un dos o frechlyn MVA er mwyn helpu i addasu neu leihau symptomau'r clefyd a dylai hefyd helpu i roi hwb i'ch amddiffyniad ar gyfer y dyfodol. Os ydych yn wynebu risg barhaus, efallai y cynghorir ail ddos.

A yw'r brechlyn yn achosi unrhyw sgil-ffeithiau?

Mae gan y brechlyn broffil diogelwch da iawn. Fel pob brechlyn, gall achosi sgil-ffeithiau, ond mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn ysgafn ac yn fyrhoedlog ac nid yw pawb yn eu cael.

Gall sgil-ffeithiau fod yn fwy cyffredin ymhlith pobl sydd wedi cael dos o frechlyn y frech wen byw yn flaenorol. Dim ond un dos o MVA sydd ei angen ar y bobl hyn i roi hwb i'w hamddiffyniad presennol.

A ellir defnyddio MVA mewn plant?

Mae'n hysbys bod brech y mwncïod yn fwy difrifol mewn plant ifanc nag mewn plant hŷn ac oedolion. Felly, mae'r brechlyn yn dal i gael ei argymhell mewn plant, hyd yn oed mewn babanod.

Er mai prin iawn yw'r data ar y defnydd o frechlyn y frech wen mewn plant, mae'r un brechlyn MVA wedi'i ddefnyddio'n helaeth ar gyfer plant fel rhan o frechlynnau eraill. Mae cannoedd o fabanod bach wedi cael brechlynnau sy'n seiliedig ar MVA yn erbyn twbercwlosis a malaria. Mae'n ymddangos bod y brechlynnau'n gweithio'n dda iawn ac mae ganddynt record ddiogelwch dderbyniol, gan achosi sgil-ffeithiau tebyg iawn i frechlynnau eraill. Mae'r brechlyn hefyd wedi'i roi'n ddiogel i ychydig o blant yn y DU ar ôl dod i gysylltiad ag achos unigol.

A oes unrhyw un na all gael y brechlyn MVA?

Yr unig bobl na allant gael y brechlyn yw'r rhai a ddiodeffodd adwaith alergaidd sydyn a oedd yn bygwth bywyd i ddos blaenorol o'r brechlyn, neu unrhyw un o gynhwysion y brechlyn yn flaenorol. Mae'r brechlyn yn cynnwys symiau hybrin o brotein cyw iâr, bensonas a gentamisin a chiproflocasin (gwrthfotigau).

Pwy y byddai'n well iddynt oedi brechu?

Os ydych yn sâl gyda thymheredd uchel, efallai y bydd angen i chi gael eich asesu i benderfynu a ydych yn dangos arwyddion cynnar o frech y mwncïod. Os nad yw'ch salwch yn gysylltiedig â brech y mwncïod, efallai y byddwch yn dal i gael cynnig y brechlyn. Ni ddylai presenoldeb mân haint, fel annwyd, ei gwneud yn ofynnol gohirio'r brechiad, ond siaradwch â'ch meddyg neu nyrs yn gyntaf.



Pwy arall y mae angen iddynt gymryd gofal arbennig?

Dylech ddweud wrth y meddyg neu'r nyrs os ydych wedi cael brechiad y frech wen yn y gorffennol neu os oes gennych ddermatitis atopig, gan y gallai'r risg o sgil-ffeithiau o'r brechlyn MVA fod yn uwch.

Os ydych yn HIV positif neu os oes gennych unrhyw gyflwr neu'n cael triniaeth arall sy'n arwain at system imiwedd wan, efallai na fydd y brechlyn yn eich diogelu cystal. Rhowch wybod i'ch meddyg neu nyrs.

Beth os ydw i'n feichiog?

Os ydych yn feichiog, yn meddwl y gallech fod yn feichiog neu'n bwriadu cael babi, siaradwch â'ch meddyg. Nid yw'r feirws yn y brechlyn yn tyfu ac yn lluosogi yn y corff dynol ac felly ni all ledaenu i blentyn heb ei eni.

Gall brech y mwncïod fod yn fwy difrifol yn ystod beichiogrwydd ac mae angen i chi hefyd ystyried y risg o drosglwyddo'r haint i'ch babi. Dylai'r meddyg eich helpu i ddeall y manteision a sut y mae hyn yn cydbwyso yn erbyn unrhyw risg ddamcaniaethol o'r brechlyn.

Rwy'n bwydo ar y fron, a ddylwn gael y brechlyn o hyd?

Os ydych yn bwydo ar y fron, byddwch yn dal i gael cynnig y brechlyn. Nid yw'r feirws yn y brechlyn yn tyfu yn y corff dynol ac felly ni all ledaenu i'r plentyn sy'n bwydo ar y fron.

Fodd bynnag, os byddwch yn dal brech y mwncïod, gallech drosglwyddo'r haint i'ch babi, a gall brech y mwncïod fod yn fwy difrifol mewn babanod bach. Gall y meddyg helpu i esbonio'r manteision.

Beth am y meddyginiaethau eraill rwyf yn eu cymryd?

Dywedwch wrth eich meddyg neu nyrs os ydych yn cymryd unrhyw feddyginiaethau eraill neu wedi cymryd unrhyw feddyginiaethau eraill yn ddiweddar neu os ydych wedi cael unrhyw frechlyn arall yn ddiweddar. Yn y rhan fwyaf o achosion, dylech fod yn iawn i gael y brechlyn.

Sut y mae MVA yn cael ei roi?

Rhoddir y brechlyn fel pigiad i'r croen, yn ddelfrydol yn rhan uchaf y fraich, gan eich meddyg neu nyrs.

Gyrru a defnyddio peiriannau: Nid oes rheswm dros gredu y byddai'r brechlyn yn effeithio ar eich gallu i yrru neu ddefnyddio peiriannau. Mae llewygu ar ôl brechiad yn eithaf cyffredin, felly dylech aros am 15 munud ar ôl y brechiad cyn i chi yrru.

Beth yw sgil-ffeithiau'r brechlyn MVA?

Fel pob meddyginiaeth, gall y brechlyn hwn achosi sgil-ffeithiau, er nad yw pawb yn eu cael. Mae sgil-ffeithiau cyffredin yn cynnwys poen a chosi ar safle'r pigiad a phen tost/cur pen, poen yn y cyhyrau, salwch a blinder. Bydd tua 1 o bob 10 o bobl yn cael oerfel a thwymyn, ond ni ddylai'r rhain bara mwy nag ychydig ddyddiau.

Os byddwch yn profi unrhyw rai o'r sgil-ffeithiau a restrwyd uchod, dylech orffwys a gallwch gymryd y dos cywir o barasetamol er mwyn helpu i leddfu'r symptomau.

Os oes gennych ddermatitis atopig (math o ecsema) eisoes, efallai y byddwch yn profi adweithiau croen lleol mwy dwys (fel cochni, chwyddo a chosi) a symptomau cyffredinol eraill (fel pen tost/cur pen, poen yn y cyhyrau, teimlo'n sâl neu'n flinedig), yn ogystal â fflamychu neu waethygu o ran eich cyflwr croen.

Sgil-effeithiau difrifol

Mae rhai cyflyrau eraill wedi'u nodi'n anaml mewn pobl a gafodd y brechlyn. Yn yr ysbryd o fod yn agored, mae mewnosodiad cynnyrch y brechlyn yn sôn am yr holl gyflyrau hyn – hyd yn oed y rhai a nodwyd mewn achosion unigol – ond nid yw hyn yn golygu mai'r brechlyn oedd yn gyfrifol. Os byddwch yn cael unrhyw sgil-effeithiau, siaradwch â'ch meddyg, fferyllydd neu nyrs. Mae hyn yn cynnwys unrhyw sgil-effeithiau posibl nad ydynt wedi'u rhestru yn y daflen hon.

Drwy roi gwybod am sgil-effeithiau gallwch helpu i ddarparu rhagor o wybodaeth am ddiogelwch y brechlyn hwn.

Rhowch wybod am unrhyw sgil-effeithiau tybiedig yn uniongyrchol drwy'r Cynllun Yellow Card ar y wefan: yellowcard.mhra.gov.uk, drwy lawrlwytho'r ap Yellow Card neu drwy ffonio'r cynllun Yellow Card ar **0800 731 6789** 9am – 5pm

Os byddwch yn cael y symptomau canlynol yn fuan ar ôl y brechiad, ffoniwch 999 (neu gofynnwch i rywun wneud hyn ar eich rhan):



Anadlu'n galed neu'n swnllyd, gwichian



Tafod chwyddedig



Llewygu hirymarhous



Dryswch neu golli ymwybyddiaeth



Gall y symptomau hyn fod yn arwydd o adwaith alergaidd prin ond difrifol ac maent fel arfer yn digwydd o fewn 15 munud i'r brechiad. Mae llewygu syml yn llawer mwy cyffredin ar ôl brechu. Os byddwch yn llewygu, arhoswch yn wastad ar eich cefn gyda'ch coesau wedi'u codi. Os nad yw hyn yn gwneud i chi deimlo'n well, galwch am help.

Ar gyfer symptomau eraill, ffoniwch 111 neu eich gweithiwr iechyd proffesiynol.

Byddwch yn cael rhagor o wybodaeth am y feddyginiaeth hon o'r mewnosodiad pecyn y dylai'r meddyg neu'r nyrs ei roi i chi. Mae'r mewnosodiad hefyd ar gael ar wefan: www.ema.europa/en/medicines/human/EPAR/Imvanex

Rhagor o wybodaeth

Ewch i: icc.gig.cymru/pynciau/imiwneiddio-a-brechlynnau

I gael gwybod sut y mae'r GIG yn defnyddio eich gwybodaeth, ewch i: 111.wales.nhs.uk/aboutus/yourinformation/?locale=cy